Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

OPG104A

Llenwi eich ffurflen adroddiad dirprwy

Penderfyniadau ynglŷn â lles personol

Ynglŷn â'r ffurflen adroddiad dirprwy

Pam fod angen i chi lenwi'r ffurflen adroddiad dirprwy?

Mae’r ffurflen adroddiad dirprwy:

- yn dweud wrthym am benderfyniadau rydych chi wedi'u gwneud ar gyfer yr unigolyn rydych chi'n gweithredu drosto (a elwir yn "P' yn y canllaw hwn, sef y term a ddefnyddir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005)

Weithiau mae angen gwybodaeth ychwanegol ar OPG. Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddweud mwy wrthym neu ofyn i ymwelydd Llys Gwarchod ymweld â chi a P i ddarganfod mwy.

Beth sy'n digwydd os na fyddwch chi'n anfon eich ffurflen atom neu os oes pryderon?

Yn ôl y gyfraith, **mae'n rhaid i chi** lenwi ffurflen adroddiad dirprwy bob blwyddyn neu pan ofynnir i chi wneud hynny gan OPG.

© Hawlfraint y Goron 2026

Os na fyddwch yn llenwi ac yn anfon eich adroddiad dirprwy pan fo angen, neu os oes pryderon oherwydd hynny, efallai y byddwn yn adolygu eich dirprwyaeth. Yn y pen draw, gallai hyn arwain at wneud cais i'r Llys Gwarchod eich dileu fel dirprwy a phenodi dirprwy arall yn lle hynny.

Pryderon

Os oes unrhyw beth am fod yn ddirprwy sy'n eich poeni, dywedwch wrthym amdano yn eich ffurflen adroddiad ar dudalen 7. Byddwn yn cysylltu â chi ac yn ceisio helpu. Am ymateb cyflymach, ffoniwch neu e-bostiwch eich rheolwr achos OPG.

Cysylltu ag OPG

- Ffôn: 0300 456 0300
- Ffonio o'r tu allan i'r DU: +44 (0)203 518 9639
- Relay UK (os na allwch glywed na siarad ar y ffôn): 18001 0300 123 1300
- Dydd Llun i ddydd Gwener 9am i 5pm; Dydd Mercher 10am i 5pm
- E-bost: customerservices@publicguardian.gov.uk

Ai hon yw eich blwyddyn gyntaf fel dirprwy?

Rydym yn gwybod bod y flwyddyn gyntaf o fod yn ddirprwy yn gallu bod yn anodd. Cysylltwch â'ch rheolwr achos OPG i gael help i ddeall eich dyletswyddau:

Anfonwch eich ffurflen wedi'i llenwi i:

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Blwch Post 16185

Birmingham

B2 2WH

Llenwi'r ffurflen

Adran 1: Dirprwy a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â P

Y cyfnod adrodd (tudalen 1)

Mae eich cyfnod adrodd ar y llythyr a anfonwyd atoch gyda'ch ffurflen adroddiad. Mae pob un fel arfer yn para 12 mis, gan ddechrau o'r dyddiad pan gyhoeddir eich gorchymyn llys (nid y dyddiad y byddwch chi'n ei dderbyn). Fe welwch y dyddiad hwnnw ar dudalen gyntaf eich gorchymyn llys. Er enghraifft, os yw eich gorchymyn llys wedi'i ddyddio 10 Mehefin, y cyfnod adrodd yw 10 Mehefin i 9 Mehefin y flwyddyn ganlynol.

Weithiau efallai y byddwn yn gofyn i chi anfon adroddiadau yn amlach nag unwaith y flwyddyn.

A yw P yn treulio amser mewn mwy nag un cyfeiriad?

Mae'n ddefnyddiol i ni gael cofnod cyfredol o ble mae P yn treulio eu hamser. Felly, mae angen i ni wybod am unrhyw le arall y mae P yn treulio swm rhesymol o amser. Os oes rhywle y mae P yn treulio wythnosau ar y tro, yna rhowch wybod i ni ar dudalen 8.

Mae hyn oherwydd efallai y bydd angen i ni drefnu ymweliad â P.

Adran 2: Penderfyniadau a wnaed dros y cyfnod adrodd

Yn yr adran hon, gofynnwn i chi am:

- Alluedd meddyliol P i wneud penderfyniadau lles personol dros y cyfnod adrodd – p'un a yw eu galluedd meddyliol wedi newid neu wedi aros yr un fath yn ystod y cyfnod hwnnw
- penderfyniadau arwyddocaol a wnaethoch ar gyfer P yn ystod y cyfnod adrodd

Mae angen i chi ystyried a yw galluedd meddyliol P wedi gwella neu yn gwella, a pham. Os yw P wedi adennill galluedd, efallai y bydd angen i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod i'ch dirprwyaeth gael ei ryddhau.

Mae 'gallu meddyliol' yn golygu gallu gwneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud.

Penderfyniadau arwyddocaol: penderfyniadau dirprwy (tudalen 2)

Mae angen i chi restru'r holl benderfyniadau pwysig a wnaethoch ar gyfer P yn ystod y cyfnod adrodd a gafodd effaith ar eu hiechyd, eu gofal neu amgylchiadau eraill.

Hoffem hefyd i chi ddweud wrthym am benderfyniadau rydych chi'n gwybod amdanynt y mae rhywun arall wedi'u gwneud. Gallai hyn fod yn weithiwr gofal, meddyg teulu neu rywun o'r awdurdod lleol.

Gallai penderfyniad arwyddocaol fod ynglŷn â:

- symud P i gartref nyrsio neu ofal arall
- newid eu canolfan ddydd
- cytuno i driniaeth feddygol
- gyda phwy mae P yn byw gyda nhw
- gwneud cwyn am ofal neu driniaeth P

Nid oes angen i chi gynnwys penderfyniadau bychain o ddydd i ddydd yma.

Penderfyniadau arwyddocaol: Cyfranogiad P (tudalen 2)

Dywedwch wrthym p'un a oedd P yn rhan o wneud y penderfyniad ai peidio a sut y gwnaethoch gefnogi P i wneud y penderfyniad. Peidiwch â gadael yr adran hon yn wag. Os oes gan P alluedd meddyliol cyfyngedig ac na all wneud unrhyw benderfyniadau, dywedwch wrthym am hynny yma.

Gall galluedd meddyliol newid. Efallai y bydd P yn gallu gwneud rhai mathau o benderfyniadau ond nid eraill - neu wneud penderfyniadau ar rai adegau yn unig.

Rhaid i chi helpu P i wneud penderfyniad i gyd neu ran ohono os gallant. Dylech wneud penderfyniad dim ond os nad yw P yn gallu ei wneud pan fydd angen. Am gyngor ar gynnwys P wrth wneud penderfyniadau, gweler pennod 5 o God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol, ar gael yn **www.gov.uk/opg/mca-code**

Adran 3: Y bobl y gwnaethoch ymgynghori â nhw

Ysgrifennwch fanylion y bobl y gwnaethoch ymgynghori â nhw i helpu P, megis:

- cartref gofal, gwasanaethau cymdeithasol neu staff awdurdodau lleol
- aelodau o'r teulu
- ffrindiau agos P
- Meddygon teulu a staff iechyd eraill

Efallai y bydd angen i ni gysylltu â nhw os bydd rhywbeth yn digwydd, ac mae'n rhaid i ni gynnal ymchwiliad.

Os yn bosibl, dylech siarad â phobl sy'n adnabod P yn dda neu'n gweithio'n agos gyda nhw. Siaradwch â nhw am ddymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd P.

Os na wnaethoch ymgynghori ag unrhyw un, mae angen i chi ddweud wrthym pam na wnaethoch chi wneud hynny.

Anfonwyd taflen ychwanegol atoch rhag ofn eich bod angen mwy o le. Llungopïwch ef gymaint o weithiau ag sydd ei angen arnoch.

Adran 4: Cyswllt â P

Rydyn ni'n gofyn cwestiynau am bwy sy'n ymweld â P fel y gallwn fod yn siŵr nad ydyn nhw'n teimlo'n unig. Nid yw pob dirprwy yn gallu ymweld â P yn rheolaidd. Ond dylai fod rhywun a allai ddweud wrthych os oedd unrhyw beth o'i le gyda P. Gallai hyn fod yn aelod o'r teulu neu ffrind rydych chi'n siarad â nhw'n rheolaidd sy'n ymweld â P.

Adran 5: Lles personol P

Yn yr adran hon rydym yn gofyn i chi am:

- sut mae gofal P yn cael ei dalu, a phwy sy'n darparu'r gofal
- pryd gafodd cynllun gofal P ei adolygu ddiwethaf

- iechyd cyffredinol P, ac unrhyw apwyntiadau neu adolygiadau meddygol neu ofal
- gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol y cymerodd P ran ynddynt

Nid oes angen i ni wybod am bob apwyntiad neu fân ddigwyddiad. Rydym eisiau dealltwriaeth gyffredinol o iechyd P, a chofnod o unrhyw ddigwyddiadau neu apwyntiadau arwyddocaol.

Er enghraifft, gallai unigolyn ag epilepsi gael trawiadau yn rheolaidd. Ni fyddai angen i ni wybod am bob un, ond gallech ddweud wrthym eu bod wedi cael ychydig o drawiadau yn ystod y flwyddyn a allai fod yn normal i'r unigolyn hwnnw.

Fodd bynnag, os bydd unigolyn â chyflwr parhaus yn gwaethygu'n gyflym iawn, neu wedi cael damwain fawr, byddem angen gwybod am hynny.

Adran 6: Pryderon a newidiadau

Dywedwch wrthym am unrhyw bryderon sydd gennych nawr a newidiadau rydych chi'n meddwl a allai ddigwydd yn y cyfnod adrodd nesaf.

Os oes angen ateb cyflymach arnoch, ffoniwch neu e-bostiwch eich rheolwr achos OPG. Mae gan eich llythyrau gan OPG fanylion cyswllt eich rheolwr achos.

Os ydych chi'n meddwl bod P mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr heddlu ar 999.

Adran 7: Unrhyw wybodaeth arall

Os ydych chi eisiau dweud wrthym unrhyw beth nad yw wedi'i godi yn rhywle arall yn y ffurflen, nodwch hynny yma. Does ddim rhaid i chi lenwi'r adran hon.

Adran 8: Datganiad y Dirprwy

Rhaid i chi ddarllen y datganiad ar dudalen 9 cyn i chi ei lofnodi a'i ddyddio.

Rydych chi'n llofnodi i ddweud, hyd y gwyddoch, eich bod wedi rhoi gwybodaeth gywir. Os oes gennych unrhyw amheuon, cysylltwch â'ch rheolwr achos cyn llofnodi.

Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch dyletswyddau fel y nodir yn eich gorchymyn llys, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys cyngor ac enghreifftiau i ddirprwyon.

Gallwch ddod o hyd iddo yn **www.gov.uk/opg/mca-code**

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl i chi lenwi'ch adroddiad gyda chymaint o wybodaeth ag y gallwch, anfonwch ef i:

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Blwch PG 16185

Birmingham

B2 2WH

Pan fyddwn wedi adolygu'ch adroddiad, byddwn yn anfon llythyr cydnabyddiaeth atoch. Bydd hwn yn cynnwys y dyddiadau ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf. Efallai y byddwn yn gofyn am fwy o wybodaeth. Gallai hyn fod yn:

- ddiweddariad ar drefniadau byw y cleient
- manylion pobl eraill sy'n ymwneud â gofal P
- tystiolaeth ddogfennol arall

Rydym fel arfer yn gofyn am fwy o wybodaeth dros y ffôn, ac os oes angen, byddwn yn cysylltu eto trwy anfon llythyr.

Geirfa

Budd gorau: dylai dirprwyon bob amser ystyried pa weithred sydd er budd gorau P wrth wneud penderfyniad. Dylech hefyd ystyried dymuniadau P yn y gorffennol a'r presennol a meddwl am ymgynghori ag eraill.

Rhif achos: bydd pob llythyr gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cynnwys eich rhif achos: chwiliwch am 'cyfeirnod OPG'. Mae eich rhif achos hefyd ar dudalen gyntaf eich gorchymyn llys yn y gornel dde uchaf.

Cod Ymarfer: canllaw i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol sydd ar gael mewn print gan OPG neu yn **www.gov.uk/opg/mca-code** Mae'r cod yn cynnwys llawer o wybodaeth werthfawr i ddirprwyon.

Ymwelydd Llys Gwarchod: rhywun sy'n cael ei benodi i adrodd i'r Llys Gwarchod neu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar sut mae dirprwyon yn cyflawni eu dyletswyddau.

Dirprwy: chi – yr unigolyn y mae'r Llys Gwarchod wedi'i benodi i ofalu am faterion P.

Dirprwy leyg: dirprwy nad yw'n broffesiynol, fel gŵr, gwraig, plentyn, partner neu ffrind.

Galluedd meddyliol: y gallu i wneud penderfyniad am fater penodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Mae'r diffiniad cyfreithiol o berson sydd heb alluedd meddyliol wedi'i nodi yn adran 2 o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005: mae'r ddeddf wedi'i chynllunio i amddiffyn pobl nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Gallai hyn fod oherwydd cyflwr iechyd meddwl, anabledd dysgu difrifol, anaf i'r ymennydd neu strôc. Pwrpas y ddeddf yw caniatáu i oedolion wneud cymaint o benderfyniadau ag y gallant drostynt eu hunain ac i ddirprwy neu eraill wneud penderfyniadau ar eu rhan.

P: yr unigolyn sydd wedi dewis i'ch penodi gan y Llys Gwarchod i helpu i wneud penderfyniadau ar eu rhan.

Dirprwy lles personol: dirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod i reoli iechyd a gofal P.

Dirprwy broffesiynol: rhywun sy'n codi tâl am fod yn ddirprwy, fel cyfreithiwr, cyfrifydd neu ddirprwy awdurdod lleol.

Dirprwy eiddo a materion: dirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod i reoli materion ariannol y cleient.

Cyfnod adrodd: y cyfnod o amser a gwmpesir gan eich adroddiad dirprwy (fel arfer mae'n 12 mis).